OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2010 Rhif 2002 (Cy.188) (C.106)

## CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio Rhif 1) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirwyn i ben y trefniadau trosiannol a wnaed o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005 ("Gorchymyn Rhif 4") mewn perthynas â Chyngor Sir Powys ("y Cyngor").

O dan y trefniadau hynny, mae pob awdurdod cynllunio lleol a restrir yn yr Atodlen i Orchymyn Rhif 4 yn gallu parhau â'r broses sy'n arwain yn y pen draw at fabwysiadu ei gynllun datblygu unedig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn hytrach na gorfod dechrau gweithio ar baratoi cynllun datblygu lleol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dileu enw'r Cyngor oddi ar y rhestr o awdurdodau cynllunio lleol yn yr Atodlen i Orchymyn Rhif 4 ac felly'n gosod y Cyngor dan ddyletswydd i baratoi cynllun datblygu lleol ar gyfer ei ardal.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2010 No. 2002 (W.188) (C.106)

## TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

# The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) (Amendment No. 1) Order 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order brings to an end the transitional arrangements made under the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) Order 2005 ("the No. 4 Order") in relation to Powys County Council ("the Council").

Under those arrangements, each local planning authority listed in the Schedule to the No. 4 Order is able to continue with the process leading ultimately to the adoption of its unitary development plan under the Town and Country Planning Act 1990, instead of having to start work on the preparation of a local development plan under the Planning and Compulsory Purchase Act 2004.

This Order removes the Council from the list of local planning authorities in the Schedule to the No. 4 Order and thus places the Council under a duty to prepare a local development plan for its area.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2002 (Cy.188) (C.106)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio Rhif 1) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Awst 2010* |
| *Yn dod i rym* | *26 Awst 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddynt hwy(**1**) gan adrannau 121(5) a 122(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**1. Enwi, cychwyn a chymhwyso**

(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio Rhif 1) 2010 a daw i rym ar 26 Awst 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) 2004 p.5.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2002 (W.188) (C.106)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) (Amendment No. 1) Order 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *5 August 2010* |
| *Coming into force* | *26 August 2010* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers vested in them(**1**) by sections 121(5) and 122(3) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004(**2**), make the following Order:

**1. Title, commencement and application**

(1) The title of this Order is the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) (Amendment No. 1) Order 2010 and it comes into force on 26 August 2010.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(**1**) The functions conferred on the National Assembly for Wales by the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c.5) are exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**2**) 2004 c.5.

**2. Diwygio Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005**

Yn yr Atodlen i Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005(**1**), hepgorer y geiriau "Cyngor Sir Powys".

**2. Amendment of The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) Order 2005**

In the Schedule to The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) Order 2005(**1**), omit the words "Powys County Council".

*Rosemary Thomas*

Prif Gynllunydd/Dirprwy Gyfarwyddwr o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru.

5 Awst 2010.

Chief Planner/Deputy Director under authority of the Minister for Environment, Sustainability and Housing, one of the Welsh Ministers.

5 August 2010.

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2005/2722 (Cy.193), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/842 (Cy.77), 2006/1700 (Cy.162), 2006/3119 (Cy.289), 2007/546 (Cy.48), 2007/1023 (Cy.92), 2007/2371 (Cy.194), 2007/2447 (Cy.203), 2007/2449 (Cy.205), 2008/10 (Cy.4), 2008/2162 (Cy.192) a 2009/2645 (Cy.217).

(**1**) S.I. 2005/2722 (W.193), amended by S.I. 2006/842 (W.77), 2006/1700 (W.162), 2006/3119 (W.289), 2007/546 (W.48), 2007/1023 (W.92), 2007/2371 (W.194), 2007/2447 (W.203), 2007/2449 (W.205), 2008/10 (W.4), 2008/2162 (W.192) and 2009/2645 (W.217).